**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 12fed Hydref 2023 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Ciliau Aeron**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Iwan Thomas (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Helen Evans, Eirlys James-Evans Tina Jones.
Clerc: Denfer Morgan

**133 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Nigel Davies, Robert Davies, Arwel Jones, Alwen Thomas, Ray Williams a'r Cynghorydd Sir Marc Davies am fethu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**134 Trefniadaeth**

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, cadeiriwyd y cyfarfod gan y cyn-Gadeirydd, y Cynghorydd Iwan Thomas.

**135 Heddlu Dyfed-Powys**

Croesawyd PCSO Charlotte Carter i'r cyfarfod a rhoddwyd y gwybodaeth ganlynol ganddi hi mewn perthynas â'r tri mis diwethaf.

- Fe fu yna fan fach goch yn cael ei yrru o gamps yr ardal mewn ffordd amheus
- Adroddwyd tri galwad ffôn amheus
- Cafwyd un damwain ffordd yn cynnwys un cerbyd a oedd wedi dod oddi ar y ffordd
- Cafwyd digwyddiadau o boteli nwy yn cael eu dwyn.
- Roedd cerbyd wedi cael ei facio i fewn i wal yng Nghilcennin.

Dywedwyd fod Cynllun Speedwatch Cilcennin wedi cael caniatad i fynd yn ei flaen a bod y trefniadau mewn llaw.

**136 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 14eg Medi 2023.

**137 Materion yn Codi**

Cofnod 132 – dywedodd y Clerc ei fod wedi adrodd cyflwr y ffordd ger Tanyrallt at y Cyngor Sir a'i fod wedi cael ei ychwanegu at y rhestr gwaith I'w wneud pan fyddai adnoddau yn caniatau.

**138 Mynwent Eglwys Cilcennin**

Rhannodd y Cynghorydd Iwan Thomas gynllun drafft a baratawyd ganddo at bwrpas trafod gyda'r swyddogion cyflwyno cais cynllunio ar gyfer y cynllun arfaethedig.

**139 Adeilad Ysgol Cilcennin**

Dywedodd y Clerc nad oedd wedi derbyn unrhyw ateb gan y Cyngor Sir i'r cais am gyfarfod cychwynnol. Cynigiodd y Cynghorydd y Cynghorydd Iwan Thomas gael gair pellach gyda 'r Aelod Cabinet, y Cynghorydd Clive Davies ar y mater. Nodwyd hefyd y datblygiadau diweddar ynghylch y defnydd o adeilad ysgol Cribyn.

**140 Llwybrau Cyhoeddus**

Cytunwyd ail-drefnu'r cyfarfod a ohiriwyd.

**141 Rheolau Sefydlog Diwygiedig**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Rheolau Sefydlog diwygiedig a baratawyd gan Un Llais Cymru ac sy'n cynnwys darpariaethau Deddf llywodraeth Leol 2021.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog fel a gyflwynwyd.

**142 Ymgynghoriad Cyngor Sir Ceredigion Premiwm Treth Gyngor posib**

Rhoddwyd ystyriaeth i Ymgynghoriad Cyngor Sir Ceredigion ar Bremiwm Treth Gyngor posib.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** peidio ymateb yn gorfforaethol ond I annog aelodau i ymateb fel unigolion.

**143 Unrhyw Fater Arall**

Cafodd y Clerc ganiatad i holi'r holl Aelodau a fyddai modd ail-drefnu cyfarfod mis Tachwedd gan ei fod yn broblem iddo fe fod yn bresennol.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:15pm